# Adroddiad Asesu Manwl ar Lunio Polisïau Cynhwysol

**Teitl:** Dringo'n Uwch: Creu Cymru Egnïol

**Adran/Is-adran:** Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd

**Swyddog Arweiniol:** Chris Tudor-Smith

**Cyflwyniad:**
Mewn ymateb i adroddiad Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cynyddu Gweithgarwch Corfforol yng Nghymru* rhoddwyd y cyfrifoldeb i'r Prif Swyddog Meddygol am arwain y cydgysylltu trawsadrannol ar weithgarwch corfforol ac am ddatblygu cynllun gweithredu ar weithgarwch corfforol.

**Datblygu'r Strategaeth**
Er mwyn sicrhau bod natur drawsbynciol y cynllun yn cael ei gydnabod, sefydlwyd grŵp o randdeiliaid mewnol yn cynnwys cynrychiolaeth o'r adrannau canlynol:

- Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
- Yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu
- Adran yr Economi a Thrafnidiaeth
- Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
- Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd
- Yr Adran Materion Gwledig a Threftadaeth
- Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd hefyd grŵp o randdeiliaid allanol yn cynnwys y sefydliadau canlynol:

| | |
|---|---|
| <ul><li>Prif Swyddogion Hamdden</li><li>Cyrff llywodraethu chwaraeon</li><li>Cyngor Chwaraeon Cymru</li><li>Canolfan Iechyd Cymru</li><li>Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol</li><li>Sustrans</li><li>Cyngor Cefn Gwlad Cymru</li><li>Chwarae Cymru</li><li>Skills Active</li></ul> | <ul><li>Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru</li><li>Y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored</li><li>Cymdeithas Chwaraeon Cymru</li><li>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru</li><li>Cyngor Dinas / Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd</li><li>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</li><li>British Universities and College Sport</li><li>British Waterways</li><li>Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau</li></ul> |

At hynny cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chyrff allanol eraill, gan gynnwys

- Anabledd Cymru
- Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru
- Y swyddog arweiniol yn Sport Council for Equality
- Draig Ffynci
- Cydgysylltwyr Ysgolion Iach

Cynhaliwyd hefyd ymgynghoriad ehangach â rhanddeiliaid ym mis Rhagfyr 2008.

Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ddrafft ym mis Mai 2009 yn rhestru cyfres o gamau gweithredu gan nodi asiantaethau a phartneriaid arweiniol ar gyfer pob cam gweithredu. Cynhyrchwyd fersiwn plant o adran Plant a Phobl Ifanc Egnïol y Cynllun ynghyd â cherdyn post i ymateb. Sefydlwyd tudalennau gwe penodol wedi eu hanelu at y gynulleidfa hon. Hwyluswyd gweithdy ymgynghori gyda 31 o bobl ifanc gan Draig Ffynci.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Gorffennaf. Ymatebodd 221 o sefydliadau / unigolion i'r ymgynghoriad. Bu i 79 naill ai lenwi'r holiadur yn ymateb i'r ymgynghoriad neu gyflwyno ymateb ysgrifenedig (gweler y manylion yn Atodiad 1), a defnyddiodd 142 y cerdyn post i ymateb.

Dadansoddwyd yr ymatebion a diwygiwyd y Cynllun Gweithredu i adlewyrchu'r sylwadau hyn. Dyma'r prif newidiadau i'r cynllun mewn perthynas â materion cydraddoldeb:

- Symudwyd nodau'r cynllun mewn perthynas â chydraddoldeb i ddechrau'r cynllun
- Ychwanegwyd at yr wybodaeth am dargedau trwy roi llinell am bwysigrwydd olrhain y data cydraddoldeb
- Ychwanegwyd annhegwch fel thema sylfaenol benodol a nodwyd camau gweithredu ar hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr; gwella mynediad at wasanaethau; ymchwil ac adolygu; a chynnal rhaglenni a gweithredu deddfwriaeth
- Ychwanegwyd camau gweithredu at yr adran blant mewn perthynas â chwarae, lledaenu arferion gorau, cymorth i raglenni, mynediad at gyfleusterau, deddfwriaeth fetio a gwahardd a thargedu'r sawl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
- Diweddaru'r Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Iach a sicrhau bod ymatebion lleol i'r strategaeth pobl hŷn yn cynnwys gweithgarwch corfforol.

**Ffynonellau tystiolaeth**

Mae'r Asesiad Sgrinio Cychwynnol wedi ei gyplysu yn Atodiad 2. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddarganfod arolygon ac ymchwil a wnaed gan bartneriaid y tu allan i'r Cynulliad a sut y gallent gyfrannu at y gronfa o dystiolaeth.

Mae rhestr wirio ar Bolisi'r Iaith Gymraeg hefyd wedi ei chwblhau.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Cyfarfod Asesu Manwl**

Cynhaliwyd Cyfarfod Asesu Manwl â swyddogion arweiniol ar gydraddoldeb i adolygu'r cynllun diwygiedig, gyda rhanddeiliaid allweddol o Anabledd Cymru, Rhwydwaith Menywod Lleiafrifoedd Ethnig Cymru, swyddog arweiniol Cyngor Chwaraeon Cymru ar Gydraddoldeb, Age Concern a swyddogion mewnol y Cynulliad. Ychwanegwyd yr elfennau canlynol:

- Ailysgrifennwyd y paragraff ar annhegwch ar dudalen 15 fel bod y camau gweithredu angenrheidiol yn eglur
- Aralleiriwyd y camau gweithredu yn yr adran ar anghydraddoldeb er mwyn tanlinellu pa grwpiau cydraddoldeb y byddai'r camau gweithredu'n eu targedu
- Ychwanegwyd camau gweithredu at yr adran ar annhegwch
- Newidiwyd un o'r blaenoriaethau yn yr adran ar amgylchedd egnïol i adlewyrchu anghenion pobl anabl
- Gwnaed y cysylltiadau rhwng y cynllun gweithredu a'r strategaeth pobl hŷn yn fwy penodol.

Cytunwyd nad oedd y cynllun yn debygol o greu anfantais i unrhyw grŵp.

**Crynodeb o effaith arfaethedig y cynllun ar grwpiau cydraddoldeb**

<u>Cyffredinol</u>

Mae pwyslais y cynllun ar sicrhau bod pawb yn y boblogaeth yn cael ei annog i wneud mwy o weithgarwch corfforol. Mae tystiolaeth i awgrymu mai trwy annog pobl lonydd neu eisteddog i fod yn fwy egnïol y gellir gwneud yr argraff fwyaf ar iechyd. Mae'r ystadegau a gyflwynwyd yn yr Asesiad Effaith Cychwynnol yn pwysleisio y credir bod rhai grwpiau cydraddoldeb yn cyfranogi llai na'r boblogaeth yn gyffredinol ac y byddent felly'n flaenoriaeth.

Mae nifer o gamau gweithredu penodol a gaiff effaith uniongyrchol ar grwpiau cydraddoldeb a rhoddir crynodeb o'r rhain yn yr adrannau isod. Ond dim ond hyn a hyn y bydd y camau gweithredu hyn yn ei gyflawni o ran cyflwyno cyfleoedd a sylweddolir y bydd cyfrifoldeb ar lawer o'n partneriaid i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion grwpiau cydraddoldeb. Bydd y cynllun yn cefnogi ein partneriaid yn y broses hon trwy'r mesurau canlynol:

- Darganfod ystadegau a thystiolaeth a fydd yn cyfrannu at ddeall anghenion grwpiau cydraddoldeb er mwyn cefnogi cynllunio lleol
- Lledaenu arferion gorau
- Sicrhau bod y cynlluniau gweithredu lleol newydd yn mynd i'r afael â materion cydraddoldeb
- Annog datblygu'r gweithlu
- Cynnal ymgyrch farchnata cymdeithasol a fydd yn targedu grwpiau penodol dros gyfnod, gan ddechrau â phlant bach a'u teuluoedd.

Anabledd

Sylweddolir y gall pobl anabl wynebu rhwystrau ychwanegol o ran cael at gyfleoedd i fod yn fwy corfforol egnïol. Dynodwyd nifer o gamau gweithredu yn yr adran ar annhegwch i helpu pobl anabl i fod yn fwy egnïol ac annog newidiadau diwylliannol mewn asiantaethau sy'n bartneriaid allweddol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a chyfleoedd yn cael eu targedu'n briodol.

Hil /Crefydd/Cred/Diffyg cred

Ar hyn o bryd ychydig o dystiolaeth benodol sydd ar gyfraddau cyfranogi yn ôl crefydd a chred ac fe'i cyflwynir mewn perthynas ag ethnigrwydd. Yn ddiweddar cynhaliwyd adolygiad systematig o'r llenyddiaeth ar Gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol gan y prif gyrff chwaraeon ar draws y Deyrnas Unedig. Nid yw'r adroddiad llawn ar gael eto ond mae'r crynodeb yn tanlinellu'r angen am ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol o anghenion cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ynghyd â'r angen i ymgynghori’n briodol i sicrhau y datblygir cyfleusterau a gwasanaethau sy'n ddiwylliannol briodol. Bydd y camau gweithredu a restrir yn yr adran ar annhegwch yn cefnogi hyfforddiant ar gyfer asiantaethau darparu allweddol, ochr yn ochr â'r gwaith parhaus sy'n digwydd trwy raglenni fel Mentro Allan a phrosiectau eraill a gefnogir gan grantiau'r Cyngor Chwaraeon. Caiff y gwersi a ddysgir o'r prosiectau hyn eu lledaenu i bartneriaid er mwyn annog eu mabwysiadu ar draws Cymru.

Rhyw

Cydnabyddir bod y cyfraddau cyfranogi i fenywod a genethod yn is nag i ddynion a bechgyn. Anelir prosiectau fel 5X60 at annog merched i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, ac mae eraill fel Dewch i Gerdded Cymru yn denu mwy o fenywod nag o ddynion. Mae'r cynllun yn pwysleisio y bydd y gwersi a ddysgir o'r rhaglenni yn cael eu lledaenu i bartneriaid. Anogir y cynlluniau gweithgarwch corfforol newydd i ddangos sut y byddant yn targedu menywod a merched, a bydd cymorth ar gael o hyd ar gyfer prosiectau trwy'r prosesau grant sydd eisoes yn bodoli.

Oedran

Mae adran yn y cynllun yn rhestru'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu i annog mwy o blant a phobl ifanc i gymryd rhan. Datblygwyd y rhestr o flaenoriaethau trwy ystyried y dystiolaeth a dynodi meysydd a ddylai arwain at fwy o gyfranogi.

Mae'r adran ar oedolion yn nodi pobl hŷn fel grŵp blaenoriaeth. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi gwireddu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Mae'r cynllun yn atgyfnerthu cefnogaeth barhaus Llywodraeth y Cynulliad i Nofio am Ddim ac i'r gwaith y mae Age Concern a Help the Aged yn ei wneud i ddatblygu hyfforddiant cymheiriaid.

Cyfeiriadedd Rhywiol

Cadarnhaodd adolygiad diweddar o lenyddiaeth gan gyrff chwaraeon y Deyrnas Unedig ar gyfeiriadedd rhywiol a chwaraeon y diffyg tystiolaeth mewn perthynas â lefelau cyfranogi (Brackenridge et al 2009). Amlygodd yr adroddiad yr angen am ganllawiau ar arferion gorau. Mae'r adran ar annhegwch yn y cynllun gweithredu hwn yn cynnwys camau gweithredu i ledaenu arferion gorau ac ar ôl datblygu’r canllawiau hyn fe’u dosberthir i'r cyrff perthnasol.

**Camau nesaf**

Bydd y Gweinidog yn cael copi o'r cynllun gweithredu diwygiedig ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Bydd tystiolaeth bellach yn dal i gael ei chasglu er mwyn llywio gweithredu'r cynllun yn y dyfodol.

Ymhen pum mlynedd cynhelir adolygiad o'r cynnydd yn erbyn camau gweithredu yn ymwneud â llunio polisi cynhwysol.

Atodiad 1

| | |
|---|---|
| Cyngor Chwaraeon Cymru<br>Sefydliad Rheoli Chwaraeon a Hamdden Cymru<br>Cymdeithas Chwaraeon Cymru<br>Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru<br>Undeb Rygbi Cymru Cyf.<br>Cymdeithas y Diwydiant Ffitrwydd<br>Tennis Cymru<br><br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>Cyngor Sir Gwynedd<br>Dinas a Sir Abertawe<br>Cyngor Sir Caerfyrddin<br>Cyngor Sir Caerfyrddin<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd Council<br><br>Canolfan Iechyd Cymru<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Y Gymdeithas Ffisiotherapi Siartredig<br>Pwyllgor Rheolwyr Ffisiotherapi Cymru<br>Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yng Nghymru<br>Pwyllgor Fferyllol Cymru<br>Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru/Wales<br>Pwyllgor Ymgynghorol Therapïau Cymru, LlCC<br>Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru<br>Cynghrair Iechyd Caerdydd<br>Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Blaenau Gwent | Y Gronfa Loteri Fawr<br>Dyfrffyrdd Prydain<br>Cyngor Cefn Gwlad Cymru<br>Fields in Trust, Cymru<br>Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru<br>Comisiwn Coedwigaeth Cymru<br><br><br>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru<br>Sustrans Cymru<br>National Deaf Children's Society, Cymru<br>Scope Cymru<br>Diabetes UK Cymru<br>Canolfan Sefydliad Prydeinig y Galon ar gyfer Gweithgarwch Corfforol ac Iechyd - Prifysgol Loughborough<br>NSPCC Cymru/Wales<br>Mind CYMRU<br>Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau’r Merched<br>Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain Cymru<br>Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs<br>Troedio Sir y Fflint<br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Age Concern Cymru<br>Help the Aged yng Nghymru<br>Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol<br><br>Prifysgol Morgannwg<br>Partneriaeth Real World Learning Cymru<br>ICON Vocational Training Cyf.<br>SkillsActive<br>ContinYou Cymru<br><br>Canolfan Gymunedol Cwmafan<br>Abbott UK<br><br>Partneriaeth Gwella Iechyd Strategol trwy Weithgarwch Corfforol Castell-nedd Port Talbot<br>Cyngor Gwynedd Council |

| | |
|---|---|
| Cynghrair Her Iechyd Gwynedd | Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Caerffili<br>Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru |

**Templed Asesiad Sgrinio**

**Atodiad B**

**Polisi Arfaethedig - Cynllun Gweithredu Gweithgaredd Corfforol** **Ticiwch y blwch priodol**

| Maes Cydraddoldeb | Tystiolaeth a Nodwyd | Pwysoliad | | | Perthnasedd | | | | Materion a godwyd gan y dystiolaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Anfoddhaol | Boddhaol | Cryf | Dim perthnasedd | Isel | Canolig | Uchel | |
| **Anabledd (Gorfodol)** | **Nid yw'r data yn yr Arolwg Iechyd Cymru cyfredol yn sampl digon mawr i benderfynu beth yw'r cyfraddau cyfranogi mewn gweithgarwch corfforol yng Nghymru, ond mae tystiolaeth o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig (Sport England- Active People Survey 2007/08) yn awgrymu bod cyfranogaeth oedolion mewn chwaraeon (gan gynnwys cerdded a seiclo) yn aml yn is nag yn y boblogaeth yn gyffredinol.**<br><br>**Mae'r ffactorau a nodir fel rhai sy'n rhwystro cymryd rhan yn ymwneud â** | | **X** | | | | **X** | | **Mae diffyg data i Gymru ar gyfraddau cyfranogi yn y grŵp hwn.** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **mynediad corfforol, diffyg gwybodaeth a sgiliau canolfannau hamdden a gwirfoddolwyr, cost, materion iechyd a mynediad at wybodaeth ynglŷn â gweithgareddau. (Sport England 2002, Rimmer et al 2004)).**<br><br>**Nod y camau gweithredu yn y cynllun yw annog cymryd rhan trwy ymdrin â'r rhwystrau amgylcheddol a hyfforddi'r gweithlu, ond hefyd gweithio gydag FDSW ac asiantaethau eraill i roi cynlluniau sy'n anelu at greu newid diwylliannol o ran darparu gwasanaethau gweithgarwch corfforol i bobl ag anableddau ar brawf.** | | | | | | | | |
| **Hil (Gorfodol)** | **Mae'r dystiolaeth ar lefelau cyfranogi grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn wan oherwydd meintiau samplau'r arolwg. Mae'r dystiolaeth o Loegr yn awgrymu bod y rhan fwyaf o leiafrifoedd ethnig yn cymryd rhan mewn llai o weithgarwch corfforol, ar wahân i grwpiau Croenddu Caribïaidd a Gwyddelig. Cydnabyddir er hynny bod menywod ar draws pob hil yn cyfranogi llai, yn arbennig Menywod De Asiaidd (Llywodraeth EM 2009). Mae rhai enghreifftiau o arferion gorau eisoes ar gael trwy gynlluniau fel** | | **X** | | | **X** | | | **Y diffyg data i Gymru ar gyfraddau cyfranogi yn y grŵp hwn** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mentro Allan, a rhestrir camau gweithredu i ddysgu gwersi o'r rhain a lledaenu'r arfer yn ehangach.<br><br>Bydd y cynlluniau gweithgarwch corfforol lleol newydd yn annog camau a gymerir yn lleol i ddangos sut y byddant yn targedu grwpiau â lefelau cyfranogi isel | | | | | | | | |
| Rhyw (gan gynnwys trawsrywiol) | Mae cyfraddau cyfranogi menywod trwy'r trwch yn is na rhai dynion (Arolwg Iechyd Cymru 2007). Ni ellid gweld dim tystiolaeth ar gyfraddau cyfranogi trawsrywiol (Brackenridge et al 2008).<br><br>Gwyddom hefyd fod cyfraddau cyfranogi bechgyn yn uwch na rhai merched (HBSC 2005/6)<br><br>Bydd data'n cael eu holrhain i sicrhau bod ceisio cau'r bwlch cyfranogi hwn yn nod wrth weithredu'r cynllun hwn.<br><br>Mae'r cynllun yn dynodi'r grŵp hwn yn flaenoriaeth a bydd angen cynlluniau gweithgarwch corfforol lleol i ddatblygu camau gweithredu i dargedu grwpiau â lefel cyfranogi isel. | | | X | | | | X | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | **Mae llai o gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol wrth fynd yn hŷn (Arolwg Iechyd Cymru 2007). Mae plant yn aml yn dibynnu ar anogaeth y teulu ac felly mae ymyrryd trwy gyfrwng y teulu yn rhan allweddol o'r cynllun hwn.**<br><br>**Mae'r cynllun yn nodi pwysigrwydd sicrhau bod pobl hŷn yn dal i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol am gymaint o amser ag y mae modd gan y gall hyn gael effaith fawr ar ansawdd bywyd. Mae nifer o gamau gweithredu yn y cynllun i geisio sicrhau targedu mwy o gyfleoedd at y grŵp hwn.** | | | **X** | | | | **X** | |
| **Crefydd/Cred/Diffyg cred** | **Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â hyn gan fod arolygon yn aml yn cael eu cyflwyno yn ôl ethnigrwydd ac nid crefydd. Lle ceir tystiolaeth y mae'n ymwneud â rhwystrau sy'n wynebu rhai menywod Mwslemaidd, a gellir goresgyn llawer o'r rhain â rhaglenni, staff a newidiadau amgylcheddol priodol. (Sport Scotland 2008)**<br><br>**Mae'r camau gweithredu yn y cynllun yn ceisio annog cymryd rhan trwy ymdrin â rhwystrau amgylcheddol a** | | **X** | | | | **X** | | **Y diffyg data i Gymru ar gyfraddau cyfranogi yn y grŵp hwn** |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **hyfforddi'r gweithlu.** | | | | | | | | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **Nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd i ddynodi na rhwystrau na chyfraddau cyfranogi (Brackenridge et al 2008)** | | | | **X** | | | | |
| **Hawliau dynol: os yw'n berthnasol** (gweler Atodiad Ch am ragor o wybodaeth) | | | | | | | | | |


- Brackenridge C, Alldred P, Jarvis A, Maddocks K a Rivers I (2008), A review of Sexual Orientation in Sport. Sport Scotland
- Llywodraeth EM (2009), Be active: be healthy
- Rimmer J.H., Riley B., Wang E., Rauworth, A. a Jurkowski J. (2004), Physical activity participation among persons with disabilities: barriers and facilitators. American Journal of Preventative Medicine 25(5): 419-425.
- Sport England (2002), Adults with a disability and sport national survey 2000-2001
- Sport Scotland (2008), Muslim Women in Sport – a minority within a minority
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008), Arolwg Iechyd Cymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006), Arolwg o Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oed Ysgol